Newyddlion Y Canolbwynt – Medi 2024

Croeso i'n newyddlen ddiweddaraf, rydym yn falch iawn o gyflwyno ein fformat newydd.  Yn y rhifyn hwn, rydym yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ein Ffeiriau Swyddi misol, ein hymrwymiadau cymunedol diweddar, yn ogystal â rhannu manylion am y Rhaglenni Cronfa Ffyniant Gyffredin llwyddiannus rydym yn eu cynnal.  Gobeithio y bydd yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi.

Os oes unrhyw ffordd y gallwn eich cefnogi chi a'ch busnes, mae croeso i chi gysylltu â ni.

**FFEIRIAU SWYDDI MISOL**
Mae'r Canolbwynt, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn cynnal Ffeiriau Swyddi misol (ac eithrio mis Rhagfyr) sy'n cael eu cynnal am yn ail rhwng Gwesty St George yn Llandudno a Chanolbwynt Cymunedol Bae Colwyn.

Cynhelir y digwyddiadau rhwng 11am a 1pm ac fel arfer daw 60-70 o geiswyr gwaith iddyn nhw. Maent yn rhad ac am ddim i gyflogwyr ac maent yn ffordd ddelfrydol o gysylltu â phobl sy'n chwilio am amrywiaeth o waith, yn ogystal â bod yn gyfle gwych i rwydweithio â busnesau eraill.

Os hoffech ddod i un o'n digwyddiadau yn y dyfodol, anfonwch e-bost atom yn cyflogwyr@conwy.gov.uk a byddwn yn cysylltu â ni.

**SIOE DEITHIOL ANABLEDD GOGLEDD CYMRU**
Mewn partneriaeth â Chanolbwynt Cyflogaeth Conwy a Sir Ddinbych yn Gweithio, mae Cwmni Buddiannau Cymunedol STAND Gogledd Cymru yn cynnal ei drydedd Sioe Deithiol Anabledd Gogledd Cymru flynyddol, ddydd Mercher 30 Hydref yn Venue Cymru.

Ffocws y diwrnod yw "Gweithle mwy cynhwysol ar gyfer dyfodol gwell". Mae'n dechrau am 9am gyda Chynhadledd Cyflogwyr sy'n cynnwys rhwydweithio a brecwast, siaradwyr allweddol yn siarad am gyflogaeth heb rwystrau, yn ogystal â gweithdai.

Ar ôl cinio, mae Ffair Swyddi i gyflogwyr gwrdd â phobl leol ag anghenion ychwanegol neu anableddau, sy'n awyddus i ddod o hyd i waith addas.

**RHAGLEN ACE**
Mae'r Rhaglen ACE y mae Crest yn ei chynnal mewn partneriaeth â'r Canolbwynt yn llwyddiant ysgubol ymysg yr holl gyfranogwyr.

Mae'r rhaglen yn lleoliad 12 wythnos gyda thâl yn Crest ar draws ystod o sectorau, yn cynnwys manwerthu, gyrru ac ailwampio.   Yn ogystal â phrofiad gwaith amhrisiadwy, bydd y cyfranogwyr hefyd yn cael cefnogaeth chwilio am swydd un i un ac mewn grŵp, yn ogystal â hyfforddiant.

Cymerodd 16 o gyfranogwyr ran yn rhaglen mis Mehefin, ac mae carfan o 16 wedi dechrau rhaglen mis Medi yn ddiweddar.

**RHAGLENNI WEDI'U HARIANNU GAN GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN**
**Prosiect Cyflogadwyedd Pobl Ifanc**
Mae'r prosiect hwn yn canolbwyntio ar helpu a chefnogi pobl ifanc 16 i 19 oed ddatblygu sgiliau am oes, gan ddarparu llwybr amlwg at gyflogaeth. Dyma'r canlyniadau hyd yma:

- Mae 7 wedi bod ar y cwrs Cyflwyniad i Adeiladu
- Mae 11 wedi bod ar y cwrs Llwybr tuag at Sgiliau Dŵr
- Mae 4 wedi bod i Symud Ymlaen
- Aeth 10 i sesiwn Blasu Barista
- Mae 21 wedi sefyll eu harholiad CSCS
- Mae 11 wedi cael hyfforddiant ar Dractor
- Mae 24 o fyfyrwyr yn Penrhos Avenue wedi bod mewn ystod o sesiynau cyflogadwyedd

**Llwybrau a Chyrsiau Hyfforddi**
Mae gennym ystod eang o gyrsiau hyfforddi a llwybrau sy'n cynnig cyfuniad o hyfforddiant ar sgiliau meddal a chyflogadwyedd, cymwysterau ardystiedig yn seiliedig ar y sector a phrofiad gwaith ymarferol.

Hyd yma, mae 190 o drigolion Conwy wedi cwblhau cwrs yn llwyddiannus ers 1 Ebrill, sydd wedi cynnwys:

- Clwb Cychwyn Busnes i fusnesau newydd
- Cwrs Sgiliau Dŵr
- Cwrs Goruchwylydd Drws Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Cwrs Teledu Cylch Caeedig
- Cymhorthydd Addysgu
- Adeiladu

**Hyder yn Dy Hun**
Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar leihau arwahanrwydd cymdeithasol, meithrin gwytnwch a chynyddu hyder/hunan-barch, wrth ddatblygu sgiliau ymarferol, ariannol, digidol a chyflogadwyedd.

Ar hyn o bryd mae 43 o gyfranogwyr ar y rhaglen sydd, hyd yma, wedi bod i 26 o sesiynau gweithgareddau, gan gynnwys:

- Gwnïo - addasu/trwsio a chreu eitemau newydd o ddillad
- Dysgu Cerdded Nordig
- Diogelwch yn y Dŵr
- Defnyddio e-Feiciau
- Sesiynau Hyder a Lles
- Creu llun i fynd ar y wal o'u meddyliau a'u teimladau

**Mentoriaid Cyflogaeth i Bobl Ddigartref**
Mae gennym bellach Fentor Cyflogaeth penodedig i Bobl Ddigartrefedd, sy'n rhan o'r Tîm Atal Digartrefedd ac sy'n cefnogi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sydd yn ddigartref.

**Cymorth Rhifedd Cyflogadwyedd wedi'i Dargedu (TENS)**
Mae TENS yn darparu cymorth hanfodol gyda sgiliau rhifedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Canolbwynt hefyd wedi datblygu partneriaeth gydweithredol gyda CEF Berwyn i helpu carcharorion a ryddhawyd yn ddiweddar gyda chymorth rhifedd.

**YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED**
Mae gan y Canolbwynt amserlen brysur o sesiynau galw heibio cymunedol rheolaidd mewn lleoliadau allweddol o amgylch y sir, gan gynnwys Canolfannau Gwaith, Llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

Ategir yr amserlen gan ddigwyddiadau ad hoc, sy'n rhoi cyfle ychwanegol i ymgysylltu â'n cynulleidfa darged ddiffiniedig. Mae'r rhain wedi cynnwys digwyddiadau 'Pride' Bae Colwyn a digwyddiadau iechyd byr Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ogystal â digwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau partner, er enghraifft Diwrnod Hwyl i'r Teulu Cartrefi Conwy ym Mheulwys.

**CYFLWYNO EIN SWYDDOG YMGYSYLLTU Â CHYFLOGWYR NEWYDD**
Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Jayne Taylor, sydd wedi bod yn fentor yn y Canolbwynt ers mis Ionawr, wedi'i phenodi'n Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr.

Mae gan Jayne dros 25 mlynedd o brofiad yn y sector recriwtio a bydd ei phrofiad helaeth o lenwi swyddi gwag cyflogwyr ag ymgeiswyr addas o fudd mawr iddi yn y rôl newydd hon.

Gan wneud sylw am ei phenodiad, dywedodd Jayne: “Fe wnes i fwynhau fy amser fel mentor yn fawr gan ei fod yn rôl sy’n rhoi llawer o foddhad, ond bydd y swydd newydd hon yn fy ngalluogi i helpu ein cyfranogwyr ymhellach drwy ddefnyddio fy nghysylltiadau cyflogwr rhagorol ac arbenigedd recriwtio i helpu i ddod o hyd i gyflogaeth addas iddynt.

Mae Jayne yn gweithio mewn partneriaeth ag Alice Kirwan, sydd hefyd yn Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr, felly cadwch lygad allan am y ddau yn ein ffeiriau swyddi misol yn y dyfodol.

**SWYDDOG BRYSBENNU NEWYDD**

Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi bod Elen Jones wedi ymuno â’r Canolbwynt fel Swyddog Brysbennu.

Yn gweithio yng Nghanolfan Deuluoedd Llanrwst yn flaenorol, Elen yw’r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cyfranogwyr sy’n ymuno â’n rhaglenni. Mae ei chyfrifoldebau’n cynnwys sicrhau bod cyfranogwyr yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd llym, a chynnal asesiad cychwynnol o’u hanghenion cyn eu cofrestru. Yn ogystal, penodi eu mentor personol a fydd yn gweithio gyda nhw ac yn eu cefnogi i gyflawni eu nodau.

Mae Elen yn gyfarwydd iawn â'r holl brosiectau a mentrau sy'n cefnogi oedolion a phobl ifanc di-waith yng Nghonwy, felly os nad yw cyfranogwr yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer ein rhaglenni mae hi'n gallu eu hatgyfeirio at brosiectau cymwys eraill.

Mae hon yn rôl rwydweithio allweddol, felly bydd Elen yn cynrychioli’r Canolbwynt mewn digwyddiadau ar draws y sir.

**GWELEDIGAETH LLAFUR AR GYFER GWASANAETHAU CYFLOGADWYEDD**

Yn ddiweddar, cynhyrchodd y Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Cyflogadwyedd erthygl ar y cyfle sylweddol y gallai dychweliad y Blaid Lafur ei wneud i drawsnewid agwedd y DU at wasanaethau cyflogadwyedd a pholisïau lles. Yn ganolog i weledigaeth Llafur mae creu cymdeithas gynhwysol a theg lle mae cefnogaeth ar gael i bawb sydd ei angen.

Mae’r erthygl lawn ar gael yma:
https://www.fenews.co.uk/exclusive/how-will-labour-transform-our-employability-services/

**GWEITHIO’N IACH CONWY**

Gall bod yn y swydd gywir helpu i wella lles cyffredinol a chefnogi camau adfer o anawsterau iechyd meddwl. Mae Gweithio’n Iach Conwy yn cynnig cefnogaeth arbenigol i helpu pobl ag anghenion iechyd meddwl i ddod o hyd i waith addas.

Gall y rhaglen gynnig cefnogaeth un i un wrth chwilio am swydd, gan gynnwys ysgrifennu CV a sgiliau cyfweliad; sesiynau cwnsela cyflogaeth i helpu i oresgyn rhwystrau iechyd meddwl a chael hyd i waith; gweithdai hyfforddiant cyflogadwyedd a mwy.

Os ydych chi’n adnabod rhywun a allai elwa o’r gefnogaeth hon, anogwch nhw i gysylltu ag RCS ar workwell@rcs-wales.co.uk, 01745 336442 neu os hoffech chi gael mwy o wybodaeth am y rhaglen, ewch i
https://rcs-wales.co.uk/en/supporting-you-into-work/